Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3177

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

RHAN 5

GRANTIAU AT GOSTAU BYW

Grantiau ar gyfer dibynyddion – cyffredinol

30.—(1) Mae'r grantiau ar gyfer dibynyddion yn cynnwys yr elfennau canlynol—

(a) grant ar gyfer dibynyddion mewn oed;

(b) grant gofal plant;

(c) lwfans dysgu ar gyfer rhieni.

(2) Nodir amodau'r hawl i gael pob elfen a'r symiau sy'n daladwy yn rheoliadau 31 i 34.

(3) Caniateir didynnu swm o unrhyw un o elfennau'r grantiau ar gyfer dibynyddion yn unol â rheoliad 67.